**Dyddiad:** Dydd Mercher 24 Ionawr 2001

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

**Teitl:** Cymorth Ariannol ar gyfer y Sector Gwirfoddol

**Diben**

1. Rhoi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y sector gwirfoddol.

**Cefndir**

2. Ceir manylion am y cyllidebau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2001-02 yn y papur HSS-19-00 (p.2). Cafodd ei ystyried ar 8 Tachwedd 2000 pan ofynnwyd am bapur ar y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y sector gwirfoddol, a dadansoddiad o'r ddarpariaeth honno. Roedd y Gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 7 Rhagfyr yn cynnwys dyraniadau ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf.

3. Caiff y sector gwirfoddol gymorth yn uniongyrchol o'r Llinellau Gwariant canlynol yn y Prif Grw^p Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyntaf yn cynrychioli cynlluniau grant a reolir gan y gyfarwyddiaeth Iechyd, a'r ail yw'r prif gynlluniau grant a reolir gan y Grw^p Polisi Cymdeithasol.

**Darpariaeth (£000)**

| | **2001/2002** | **2002/03** | **2003/04** |
|---|---|---|---|
| **Grantiau i'r Sefydliadau Gwirfoddol** | **214** | **220** | **225** |
| **Cymorth i'r Sector Gwirfoddol** | **6918** | **7118** | **7318** |

4. Hefyd, gall y Sector Gwirfoddol gael cymorth ariannol oddi wrth nifer o linellau gwariant eraill y gyllideb yn y Prif Grw^ p Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ceir rhestr o brif linellau'r

gyllideb yn Atodiad A. Er hyn, nid yw’n bosibl dynodi maint y cyllidebau sy’n debygol o gael eu dyrannu i’r sector ar hyn o bryd, oherwydd bod hyn yn dibynnu ar y penderfyniadau sydd i’w gwneud gan y Cynulliad neu’r partneriaethau lleol.

5. At hyn, fe fydd nifer o Linellau Gwariant y tu allan i’r Prif Grw^p Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y disgwylir i’r sector gwirfoddol fanteisio arnynt. Mae’r prif feysydd wedi’u rhestru yn Atodiad B, ond nid yw hon yn restr gyflawn. Dylid nodi hefyd y bydd cyllid y sector gwirfoddol o dan rai o linellau gwariant y gyllideb yn "anuniongyrchol" h.y. bydd yr arian yn mynd at gorff arall i ddechrau (er enghraifft, at awdurdod lleol, awdurdod iechyd neu Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad).

6. Mae trefniadau’n cael eu rhoi yn eu lle er mwyn clustnodi pa arian fydd y sector gwirfoddol yn ei dderbyn yn uniongyrchol o’r Cynulliad. Bydd y broses hon yn cael ei hymestyn i gwmpasu’r taliadau "anuniongyrchol" i’r sector gwirfoddol, gan gynnwys y rhai oddi wrth yr Awdurdodau Lleol, yr Awdurdodau Iechyd/Ymddiriedolaethau NHS a’r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Bob hyn a hyn, fe fydd y Pwyllgor yn cael ei hysbysu o’r wybodaeth ddiweddaraf.

**Camau i’w cymryd gan y pwyllgor pwnc**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r papur hwn.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyswllt: Alyn Williams, Yr Uned Adfywio Cymunedol a Chynhwysiant Cymdeithasol, Est 3092